

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 347- Beirniadaeth Rhyddiaith dan 19 oed – Erthygl olygyddol ar bwnc cyfredol

#### Beirniad – Garmon Ceiro

A ninnau'n byw yn oes yr erthyglau barn dadleuol *clickbaity*, roeddwn wedi edrych ymlaen i ddarllen llu o erthyglau difyr – siomedig, felly, mai dim ond dwy ddilys ddaeth i law.

Gydag erthygl o'r fath, hanner y gwaith yw meddwl am bwnc difyr y gellir ei drafod yn lled-gyflym ac yn gynnil. O'r ddwy ddilys ddaeth law, pwnc 'Jabas Jones' - "Oes gan bawb yr hawl i fyw adra?" - gymrodd fy sylw gyntaf. Mae'r erthygl yn dechrau gan sôn am brofiad personol – sy'n briodol ar gyfer y testun.

Mae pwnc gwaith 'Gruff' – ein system bleidleisio – yn gofyn am weithio'n galetach i ennyn diddordeb y darllenydd! Ond mae ei baragraff cyntaf yn gwneud hynny'n gelfydd – gan ddefnyddio cyflythrennu i adeiladu momentwm, llinell fach ddoniol, a'r addewid o "ddiagnosis" pendant. Mae'n crynhoi'r broblem yn gyflym – yr unig drueni yw nad yw wedi gallu ailadrodd ei dric o gynnwys ambell linell ddeifiol yn y paragraffau hyn.

Mae arddull 'Jabas Jones' ychydig yn llai pwrpasol. Mae'n dyfynnu – a da o beth yw hynny – ond nid yw naill na'r llall o'i ddyfyniadau'n hollol llwyddiannus, gydag un yn dyfynnu Cynghorydd heb ei gyflwyno'n iawn, a'r llall yn ddyfyniad dryslyd gan deulu "o Fanceinion", ond mam sydd wedi ei "magu yn Nefyn". Gan fod gweddill yr erthygl yn wfftio sylwadau'r ddynes hon, byddai mwy o eglurder am ei sefyllfa wedi bod yn dda. A oes ganddi ail gartref? Ni chawn wybod.

Felly, gyda'r erthygl angerddol hon yn mynd ar grwydr ychydig gan fethu â nodi ambell ddatblygiad pwysig, dyfarnaf ail i 'Jabas', a'r wobr gyntaf i 'Gruff' am erthygl gryno sy'n dechrau'n wych ac yn gorffen gan fynegi rhwystredigaeth cyfarwydd gyda gwleidyddiaeth Prydain.